

BEIRNIADAETHAU CYSTADLEUAETH 345

CYFANSODDI CERDDORIAETH B17, 8 a 9

Beirniadaeth Gyffredinol ar y Gystadleuaeth

Pedwar ymgeisydd yn unig a gyflwynodd gân â chyfeiliant ar eiriau Cymraeg - nifer siomedig braidd o ystyried natur y dasg, a'r potensial am gyflwyno cân mewn unrhyw arddull gerddorol o ddewis y disgyblion. Derbyniwyd dau gyfansoddiad safonol dros ben, a dwy gân oedd yn dangos potensial, ond hefyd camgymeriadau sylfaenol o ran y nodiant.

Her oedd beirniadu cystadleuaeth lle cyflwynwyd tair cân mewn nodiant yn unig, ac un ar ffurf glywedol (ffeil MP3). Y gân ar ffurf glywedol oedd yr enillydd gan fod bwriad y cyfansoddwr i'w glywed yn glir, ac roedd y cyfanwaith yn effeithiol dros ben. Mae'n ddigon posibl mae'r prif ddiffyg mewn dwy o'r caneuon a gyflwynwyd oedd y nodiant yn unig, a bod yr hyn oedd ym mhen y cyfansoddwr ifanc yn wych, ond y gallu i'w nodi'n gywir ar bapur yn gyfyngedig. Er mwyn bod yn hollol deg a chystadleuwyr o'r oed hyn dylid, yn fy marn i, gofyn am ffeil glywedol a chopi o eiriau pob cân, gan roi'r opsiwn o gyflwyno nodiant os dymunir.

Mae'n rhaid cyfaddef nad y cyfansoddiad gorau efallai a enillodd y gystadleuaeth. Cyflwynwyd un darn effeithiol a chrefftus dros ben i unawdydd bariton ac offerynnau, ond nid oedd yr un gair ar y sgôr, ac nid oedd copi o'r geiriau ar gael chwaith. Roedd yn amhosibl felly beirniadu'r darn fel cân, gan nad oedd modd asesu gosodiad y geiriau, na'r briodas rhwng y geiriau a'r gerddoriaeth. Rhaid sicrhau copi o'r geiriau i'r beirniad.

Y Wobr Gyntaf - Cystadleuydd 345/4 (Teitl: 'Cyffro'r Antur')

Cân gyfoes i fand roc a gyflwynwyd ar ffurf ffeil MP3 yw hon - yn son am yr antur o deithio ymhell. Dyma gân effeithiol dros ben mewn arddull roc, gydag un llais bachgen yn canu'r alaw. Mae gosodiad y geiriau yn dda, strwythur y darn yn bwrpasol, a'r chyfeiliant i gitâr flaen, gitâr rhythm, gitâr fas a drymiau yn gelfydd. Mae adrannau offerynnol yr agoriad a'r canol yn cyfrannu'n sylweddol at effaith cân drawiadol. Am ryw reswm mae'r recordiad a gyflwynwyd yn gorffen yn sydyn cyn y diwedd glo, ond er hyn ceir digon o dystiolaeth o sgil y cyfansoddwr, a bwriad cân effeithiol dros ben. Un nodyn bach i gloi - byddai'n dda fod wedi derbyn copi papur o'r geiriau gan fod ambell i air yn cael ei golli ar y recordiad.

Llongyfarchiadau!

Yr Ail Wobr - Cystadleuydd 345/3 (Teitl: 'Rwyt ti jyst yn chwedl i mi')

Deuawd sy'n adrodd stori dau fachgen sy'n syrthio mewn cariad a'r un ferch, ac yn ymladd drosti yw'r cyfansoddiad hyn. Mae'r ysgrifennu ar gyfer y ddau lais yn gyffredinol dda, gyda'r cyfuniad o'r ddau ambell waith yn canu ar wahân, ac ar adegau eraill gyda'i gilydd yn effeithiol dros ben. Ar adegau mae gosodiad y geiriau yn lletchwith (e.e. y gair 'olwg' ym mar 35 a 36), ac mae nodiant y geiriau 'i mi' yn y coda (bar 61-64) yn amlwg anghywir. Mae'r chyfeiliant piano ar y cyfan yn effeithiol dros ben, ond o bryd yw gilydd ceir ambell i nodyn

sy'n swnio'n anghywir, ac ambell i ran (megis barrau 14-16) sydd bron yn amhosibl i'w chwarae gan fod y ddwy law bron ar yr un nodau. Byddai symud y llaw dde i fyny wythawd wedi concro hyn. Efallai mai gwallau nodiant yn unig yw'r rhain, ac nad yw'r nodiant yn adlewyrchu'r hyn oedd ym mhen y cyfansoddwr. Byddai cyflwyno recordiad o'r gân wedi cynnig tystiolaeth wahanol, ond heb hyn rhaid derbyn fersiwn y nodiant yn unig. O ganlyniad mae'r ffaith nad oes unrhyw awgrym o'r tempo, ac mae dim ond un marc deinameg ('mp' ar y dechrau) sydd, hefyd yn wendid. Mae llawer o botensial fan hyn. Gobeithio bydd y cyfansoddwr yn dal ati i fireinio ei grefft / ei chreffft.

Y Drydedd Wobr - Cystadleuydd 345/2 (Teitl: 'Cathod Taf')

Dyma gyfansoddiad ar gyfer y fflwt, telyn, sielo a bariton, a rhaid yw canmol safon gwaith trylwyr y cyfansoddwr. Cyflwynwyd sgôr celfydd sy'n cynnwys gwybodaeth fanwl i'r perfformwyr - marciau tempo, deinameg, a geiriau i awgrymu'r naws a'r ymdeimlad. Ceir ysgrifennu effeithiol dros ben ar gyfer y cyfuniad o offerynnau, ac mae'r newid cywair ym mar 21 ar gyfer yr adran 'espressivo e cantabile' yn adio at y diddordeb cerddorol. Mae yna nifer o syniadau hyfryd cerddorol fan hyn, ond mae yna un gwendid arwyddocaol a sylweddol. Ble mae'r geiriau ar gyfer y bariton? Cyfansoddi cân â chyfeiliant ar eiriau Cymraeg oedd y canllaw, ond mae'n amhosibl asesu'r cyfansoddiad fel cân heb y geiriau. Mae angen gweld pa mor gywir yw gosodiad y geiriau, a pha mor addas yw'r alaw a'r cyfeiliant i gyfleu eu hystyr. Treuliais amser yn chwilio'r we rhag ofn bod yna eiriau 'Cathod Taf' yn bodoli yno eisoes, mewn ymgais i fod yn deg â'r cyfansoddwr - ond ofer fu hyn. Mae'r darn yn y tri uchaf oherwydd ansawdd y cyfansoddiad, ond mae'n amhosibl rhoi'r wobwr gyntaf i rywbeth nad yw'n osodiad o eiriau Cymraeg!

Ymgeisydd arall - 345/1 (Teitl: 'Pa le mae 'nghariad i?')

Dyma unawd i gyfeiliant piano. Ceir dewis da o eiriau, ac mae natur yr alaw yn cyfleu ystyr, tristwch a galar y geiriau yn effeithiol dros ben. Ar y cyfan, mae'r gân wedi ei chofnodi'n gywir, ond mae yna ambell i wendid arwyddocaol fan hyn. Byddai'n dda cael rhyw syniad o'r tempo ar y cychwyn - marc metronom neu ryw air. Byddai'n dda hefyd cael syniad o ddeinameg y darn - does dim digon o wybodaeth yma i'r perfformiwr. O bryd i'w gilydd mae gosodiad y geiriau yn lletchwith gyda'r acen neu'r pwyslais yn syrthio mewn lle annaturiol. Mae'n ddigon posibl mai nid dyma beth yr oedd y cyfansoddwr yn ei glywed wrth gwrs, ond heb recordiad o'r gân i wrando arno ochr yn ochr â'r sgôr, rhaid derbyn fersiwn y nodiant. Mae'r cyfeiliant deulais syml ar y piano yn effeithiol ac yn adio at ymdeimlad moel y gan, ond o bryd i'w gilydd, mae angen nodyn ychwanegol i greu harmoni mwy llawn. Mae yna botensial yng nghyfansoddwr y gân - dalier ati i gyfansoddi.